Mae NICE wedi asesu tri o ddyfeisiau profi pwynt gofal fiscoelastometrig (systemau ROTEM, TEG a Sonoclot) er mwyn helpu'r GIG i benderfynu a ddylid defnyddio'r cynhyrchion hyn.

Gall profi pwynt gofal fiscoelastometrig fod yn ddefnyddiol er mwyn gweld a yw'r gwaedu'n digwydd oherwydd bod problem gyda gallu'r gwaed i ffurfio clot, neu oherwydd gwaedlif llawfeddygol. Mae hyn yn helpu i'r meddyg ddewis y driniaeth gywir i atal y gwaedu. Gall defnyddio'r systemau hyn olygu bod cleifion yn llai tebygol o fod angen trallwysiad gwaed yn ystod llawdriniaeth neu ragor o lawdriniaethau i archwilio gwaedlifau eraill.

- Mae NICE wedi dweud bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, sydd wedi cael hyfforddiant priodol, yn argymell systemau ROTEM a TEG er mwyn helpu i fonitro achosion o waed yn clotio yn ystod llawdriniaeth ar y galon ac ar ôl hynny.

Am nad oes sicrwydd ynglŷn â faint o fudd sydd i'w gael ohonynt, mae NICE wedi dweud y canlynol:

- Dim ond er mwyn helpu i fonitro achosion o waed yn clotio mewn gwaith ymchwil y dylid defnyddio system Sonoclot
- Dim ond mewn gwaith ymchwil er mwyn helpu i fonitro achosion o waed yn clotio wrth reoli gwaed ar frys yn dilyn damwain neu eni babi y dylid defnyddio systemau ROTEM, TEG a Sonoclot.

ISBN: 978-1-4731-7455-9